
YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'
CYF. 42. RHIF 11 EBRILL 2021 50c

# TRYSORAU ANHYGOEL Y DDINAS



*Neuadd Croxteth – adeiladwyd 1575*



*Capel Undodiaid Toxteth – adeiladwyd 1618*



*Neuadd Woolton – adeiladwyd 1704*



*Neuadd Dinas Lerpwl – adeiladwyd 1754*



*Neuadd Allerton, lle bu William Roscoe yn byw – adeiladwyd 1736*



*Albion House (30 James Street) – adeiladwyd 1896*

Dyma restr o'r adeiladau ar glawr mis Mawrth o'r Angor gyda'u dyddiadau adeiladu *(manylion gan David - Karslake)*
***Birkenhead Priory 1150, All Saints 1500's, Speke Hall 1532, Bluecoat Chambers 1716, Lyceum 1802. The Oratory 1829***

Golygyddol

# Sgwrs am Ddewi Sant
## – gan D. Ben Rees

**DEWI SANT.** Dyna deitl y Golygyddol. Y mae gen i dipyn o wybodaeth amdano. Rwy'n gwybod enw ei fam ac enw ei dad. Ie gwybod am ei waith, a sut ddyn oedd o, ac yn gwybod am ei gyfraniad gwerthfawr. Dyma ddyn da ac yn llawn daioni. Cenhadwr oedd o. Pregethwr Cyrddau Mawr a Sasiwn. Pregethwr o'r radd flaenaf. Er hynny nid wy'n gwybod lliw ei lygaid na'i wallt – a'i du neu goch ydoedd neu brown? Wn i ddim os oedd ganddo farf na mwstas? Ac fe gafodd ei eni mewn cyfnod pwysig – cyfnod geni y Genedl Gymraeg oedd y cyfnod hwnnw. Ie y bumed a'r chweched ganrif o Oed Crist. Dyna pa bryd y ffurfiwyd ein hiaith a sylfaen ein diwylliant. Yr enw am y dyddiau hynny ydy Oes y Saint.' Ac yn Oes y Saint y dechreuwyd ysgrifennu Llenyddiaeth Gymraeg. Doedd y fath beth a chenedl ddim yn bod cyn hynny. Dyna'r adeg y cafwyd ffurf ar Eglwys, a'i llysoedd a'i chymdeithas. Nid y Saint sydd yn gyfrifol am bopeth ond nhw oedd y bobl ddeallus a Duwiol. Yn wir yr athrylithgar bobl a welodd briodas ar dir Cymru rhwng Cristnogaeth a ddaeth o Jerwsalem a Rhufeiniaid a'i phencadlys yn Rhufain. Ie, Crist a Rhufain. Yr oedd y Cymry yn coleddu Cristnogaeth ac yn mwynhau bod yn ddeiliaid yr Ymerodraeth Rufeinig. Dywed y Parchedig Wade Evans mae Rhufeinig yw ystyr y gair *Welsh*. Ond cyflawnodd y Rhufeiniaid wyrthiau yng Nghymru.



Pump peth arbennig:
1) Ffyrdd Da.
2) Amaethyddiaeth. Anodd mesur dyled amaethyddiaeth iddynt.
3) Trefydd. Caerleon, Caerdydd – pob tref sydd a Chaer ynddo – gallwch fod yn sicr mai y Rhufeiniaid oedd yn cynllunio ac yn adeiladu – fel Caerfyrddin a Chaernarfon.
4) Lladin 'Yr elfen Ladin yn y Gymraeg'. Cymaint o eiriau lladin yn ein hiaith.
5) Addysg – Ysgol Illtud. Ysgolion y Saint. Dysgu y Clasuron. Dysgu darllen ac ysgrifennu diwinyddiaeth a dadlau.

Dyma oedd hanfod oes y saint. O'r flwyddyn 388 hyd 650.
Dewch i ni fynd yn ôl felly at fraslun o fywyd Dewi.
Enw ei fam oedd Non a'i dad Sant – sef Brenin Ceredigion. Dibynnu am yr hyn a sgrifennodd Rhigyfarch, offeiriad a mab Sulien a wnawn. Llawer o'r hyn a sgrifennodd Rhigyfarch yn chwedlonol, ond yr ydan ni gwybod iddo gael ei addysg yn Henfynyw ger Aberaeron. Ac mae ei athro yn y fan honno oedd Peulin. Ei alwedigaeth bod yn fynach mewn traddodiad arbennig. Fel y Nasareaid yn y Beibl yn ymwrthod a gwin ac yfed dŵr yn unig fel diod o ddydd i ddydd. Sonia Lewys Glyn Cothi – ei bod yn mwynhau dŵr yr afonydd oerion. Sefydlwyd ef yn Glyn Rhosyn – Tŷ Ddewi ein dyddiau ni – llwyddodd i ymlid ymaith oddiyno Boya pennaeth Gwyddelig, a byddai yn crwydro i gychwyn achosion crefyddol. A daeth i amlygrwydd mawr oherwydd Pelagiaeth. Pelagius (360- 420) a ddadleuai yn erbyn athrawiaeth y pechod gwreiddiol. Gweithredoedd da yw'r nod ac nid credu trwy ffydd. Collfarwyd y gred optimistaidd hon yng nghynhadledd Carthage yn y flwyddyn 418. I wrthweithio Pelagiaeth daeth Garmon (Germanus) Esgob Auxerre i Brydain yn 429 a 447. Daeth Pelagiaeth yn amlwg yng Nghymru – ac yn ddiweddarach cafwyd twf Arminiaeth ac Ariaeth – ac yn yr Ugeinfed Ganrif gan Weinidog Capel Grove Street, Lerpwl y Parch David Adams (Hawen) yn lladmerydd rhyddfrydiaeth diwinyddol yn deillio o Hegel a meddylwyr yr Almaen.

Ond yn ôl yng Nghymru yn oes Dewi galwyd Synod i Landdewi Brefi i wynebu Pelagiaeth. Daeth cannoedd o bobl dda ynghyd. Neb yn medru gweld na chlywed y llefarwyr. Cofiodd yr hen athro Paulinus ei ddisgybl disglair Dewi. Bachgen doeth oedd hwnnw. Cyrchwyd amdano i Glyn Rhosyn a bodlonodd deithio i ymyl afon Brefi. Pregethodd yn wych. Cododd y ddaear o dan ei draed. Medrai pawb yn ei glywed. Disgynodd Colomen ar ei ysgwydd i arwyddo mai ef oedd y gwaredydd rhag yr heresi Pelagiaeth. Llwyddodd Dewi i ennill y dydd i gadw at uniongrededd. Ei bregeth olaf yn ôl y llawysgrif Llyfr Ancr oedd yn syml *"Arglwydd frodyr a chwiorydd, byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glwysoch ac a welsoch gennyf i."*

**Y Pethau bychain.**
Beth yw rheini i Gymry Gogledd Orllewin Lloegr a Chymru?

1) Prynwch yr *Angor* bob mis.

2) Ewch ar ôl cyfnod y coronafeirws yn ôl i'ch cymdeithasau.

3) Llefarwch Gymraeg bob cyfle a ddaw i chwi.

4) Gwyliwch Rhaglenni S4C pan mae'n gyfleus.

5) Gwrandewch ar raglenni gwych Radio Cymru.

6) Prynwch o leiaf un llyfr Cymraeg bob blwyddyn.

7) Cefnogwch Undeb Gorawl Gymreig dinas Lerpwl a Chyngerdd Manceinion.

8) Prynwch gylchgrawn Cymraeg – fel *Barn, Traethodydd, Cristion, Y Faner Newydd*.

9) Dewch i Wyliau a drefnir gan Gymdithas Etifeddiaeth Glannau Mersi yn 2021 a 2022.

10) Dewch i Noson lansio y gyfrol ***Liverpool Welsh : A remarkable History*** yn Hydref 2021.

*COFFÂD*

# Gwyneth Mary Ferris
## (1929-2021)

**Dim ond yn ystod y deunaw mis olaf hyn y deuthum i adnabod y wraig fonheddig hon, ac roedd hi'n fraint gael ei hadnabod a'i chludo i Fethel yn ei chadair olwyn ar fore Sul o gartref gofal Oak Springs lle y treuliodd hwyrddydd ei bywyd. Yn ferch i'r diweddar Hugh a Mary Roberts, fe aned Gwyneth yn Lerpwl ac fe'i haddysgwyd hi yn ysgol Anfield Road. Cartref ysbrydol y teulu oedd Bethlehem, Capel y Methodistiaid Calfinaidd, Douglas Road lle roedd ei thad yn weithgar fel blaenor. Drannoeth cyhoeddi'r sôn am Ail Ryfel Byd, a hithau'n gwta ddeg oed, fe aethpwyd â hi a'i chwaer, Dilys i ddiogelwch Gogledd Cymru, yn bell o sŵn y bomiau di-drugaredd.**







**Dychwelodd Dilys ar ôl blwyddyn a Gwyneth hithau ar ôl tair. Wedi gadael yr ysgol, aeth i weithio mewn swyddfa i ŵr o'r enw David Jones, a bu yno am bymtheng mlynedd i gyd. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniodd fedal tymor-hir am ei gwasanaeth gwirfoddol gyda'r *Liverpool Auxilliary Fire Service.***

**Cyfarfu â'i phriod, Ken Ferris - ac roedd yn hoff o adrodd y stori - tra roedd hi yng nghwmni brawd i hwnnw, ac fe briodwyd y ddau yng Nghapel Douglas Road ar y 30ain o Ebrill, 1960. Fe'u bendithiwyd hwy â dwy ferch, Karen Mary ym 1961 a Lyn Elizabeth ym 1963. Daliodd Gwyneth ati gyda'i gwasanaeth gwirfoddol yng Nghanolfan Gymunedol Hartsbourne, a bu'n gweithio hefyd yn y delicatessen yn Gateacre Park Drive, lle, yn ôl pob tystiolaeth, doedd dim yn ormod o drafferth ganddi. Parhaodd gyda'i gwaith o fod yn gynorthwy-ydd dosbarth yn Ysgol Gynradd Bishop Martin yn Woolton, a hynny'n ddi-dâl. Estyniad o'r gwaith hwn oedd yr help y bu'n ei roi i'w merch, Lyn i redeg grŵp y *Rainbows* yn y pentref, lle roedd nifer fawr o'r plant, ar gownt eu parch aruthrol tuag ati, yn ei hadnabod fel *Rainbow Granny.***

**Yn ei horiau hamdden, roedd Gwyneth yn hoff iawn o bob math ar chwareuon, ac roedd wrth ei bodd yn gwylio ei hwyres, Sarah yn cymryd rhan mewn cystadlaethau nofio ledled y wlad. Hyfrydwch iddi oedd cael croesawu gor-ŵyr i mewn i'r teulu, sef Jacob John, a gwybod, ychydig cyn iddi ymadael â'r fuchedd hon, am ddyfodiad plentyn bach arall yn y dyfodol. Cafodd aml i gnoc mewn bywyd, ac yn enwedig felly o ran iechyd, ond oherwydd y cryfder cymeriad oedd yn perthyn iddi a'r ffydd honno oedd yn gymaint nodwedd ohoni, fe ddaeth drwyddi yn fuddugol, a'r wên heintus honno yn dweud am y serenedd oedd yn bod hyd yn oed pan ddôi cwmwl heibio. Daeth y diwedd iddi wedi cystudd hir yn yr Ysbyty Frenhinol, ac mi ges innau'r fraint a'r anrhydedd o wasanaethu yn ei harwyl yn Amlosgfa Springwood ar Chwefror 23ain.**

**Cofir am Gwyneth fel un oedd yn meddwl bob amser am eraill. Ein tro ni yn awr yw meddwl amdani hi, a thrysori'r atgofion sydd gennym am wraig annwyl, dyner oedd yn uchel iawn ei pharch mewn cymaint o gylchoedd. Cydymdeimlwn â Karen a Lyn a'u teuluoedd yn eu colled. Gorffwysed mewn hedd.**

***(Y Parchedig Robert Parry)***

# CORNEL Y TRYSORYDD



## EBRILL 2020

| | |
|---|---|
| Mr Eryl Wynne Jones, Woolton | £100.00 |
| Mr a Mrs Gwilym Williams, Caerdydd | £25.00 |
| Mr a Mrs Gareth Hughes, Oxton | £30.00 |
| Mrs Beryl Jones, Welwyn Grdn. City | £100.00 |
| Dr. Gwenan Jones, Treffynnon | £11.00 |
| **Cyfanswm** | **£266.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Anfonwn ein cyfarchion cynnes o Eglwys Seion i holl ddarllenwyr *Yr Angor* gan obeithio eich bod yn cadw'n iach fel mae pawb yma yn Seion.

Cawn edrych ymlaen at mis Mehefin pan fydd y cyfyngiadau wedi darfod ac y cawn fwynhau cysylltiadau agos a'n teulu sydd yn byw ymhell.

Dechreu mis Chwefror derbyniodd pob aelod o Seion gopi o Adroddiad Blynyddol Seion am 2020. Mawr yw ein diolch i Phyllis O'Neill ein trysorydd diwyd, am ei gael allan mor gynnar ac am ei llafur yn ei ddarparu a diolchwn yn fawr i John Lyons Bethania am y gymwynas o argraffu'r Adroddiad.

Gwerthfawrogwn ei garedigrwydd a'i barodrwydd bob amser i fod o gymorth i ni.

Erbyn hyn mae llawer iawn ohonom yn gwrando ar y bregeth ar y Zoom am 11 o'r gloch ar fore Sul ac mae'r nifer o wrandawyr yn cynyddu o Sul i Sul.

Diolchwn i'r Parchedig Athro D Ben Rees a'r Parchedig Robert Parry am eu pregethau ac i pawb sy'n gysylltiedig a threfnu'r ochr dechnegol o'r gwasanaeth.

Yn rhifyn Mawrth o'r *Angor*, dan y teitl Taro E-Bost mae llythyr gan Dafydd Andrew Jones i'r Golygydd a dyfynnaf yr hyn a ysgrifennwyd.

"*Derbyniais gopi o'r Angor (rhifyn Chwerfror 2021) y dydd o'r blaen a chefais flas mawr ar ei gynnwys, Mae'n lle i longyfarch am hwn hefyd. Mae'n lliwgar, yn ddeniadol a chynhwysfawr - hyd yn oed i rai heb gyswllt a Lerpwl*". Rwy'n cytuno a hyn a ddywedir ac y mae llawer o ddarllenwyr *Yr Angor* yn teimlo yr un peth - pawb yn mwynhau darllen *Yr Angor* a'r holl erthyglau diddorol sydd ynddo.

Diolch i'r holl rai sydd yn cyfrannu'r erthyglau, rhai yn fisol ac yn werth eu darllen a diolch i'r golygydd am sicrhau bod copi o'r *Angor* yn ein cyrraedd yn brydlon ar ddechreu pob mis. Edrychwn ymlaen yn ffyddiog am amser gwell i ddyfod cyn bo hir, pryd y cawn fwy o ryddid ond rhaid i ni gadw'r rheolau er mwyn arbed "lockdown" arall.

Pob bendith arnoch i gyd a cadwch yn ddiogel

***Tymhorau***

*gan Dewi Jones o Gerddi Mathafarn*

Cenwch im gân am wanwyn mwyn,
Am nythod adar yn y llwyn,
Am awel dyner, gerddi llawn,
A chawod Ebrill ar y gwawn,
A chofiaf finnau grwydro'r coed
A'r dewr friallu dan fy nhroed.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

***Yn anffodus postiwyd Yr Angor ar Ddydd Gŵyl Ddewi mewn amlen gyda label fawr ond pan ddaeth y cyfan i law yr oedd holl ysgrifau yr Angor wedi eu colli ac adroddiad ein heglwys ac ymddiheurwn i ohebydd ffyddlon Bethel, sef Nan Hughes Parry. Ond cyrhaeddodd yr Adroddiad yn ddiogel a defnyddiwn dudalen o waith y blaenoriaid ar ymddeoliad Dr D. Ben Rees ar derfyn 53 mlynedd yn bugeilio'n ffyddlon Bethel a Bethania.***

**Gwerthfawrogiad o anerchiad olaf ein Gweinidog**

Gyda syndod ac eto ddim yn annisgwyl y byddwch fel cynulleidfa wedi darllen uchod anerchiad ein Gweinidog a darganfod y geiriau mae hwn fydd yr anerchiad olaf iddo ei ysgrifennu ar ein cyfer fel aelodau o Eglwys Bethel. Mae'r ffaith mai hwn ydyw ei 52fed anerchiad yn syndod mawr ynddo ei hun am iddo fod yn gweinidogaethu arnom am gyhyd o flynyddoedd yn ddi-baid ac yn ddiflino ymhob ystyr.

Petaem yn gallu crynhoi'r holl anerchiadau o'i waith ar hyd y blynyddoedd fe fyddai hynny yn destun stori ddifyr dros ben a'r thema gyson bron yn ddi-baid fyddai ei ddiolchgarwch i bawb oedd wedi cyfrannu i gynnal achos Crist yma yn Eglwys Bethel ac wrth gwrs Capel Heathfield Road fel yr oedd cyn hynny.

Ond nid dyma'r diwedd; y mae Dr. Ben Rees yma gyda ni o hyd, ac fe allwn edrych ymlaen at ei gyfraniad i ni fel Eglwys a Chymdeithas eto yn y dyfodol ond gyda chyfrifoldeb ychydig yn wahanol.

Felly, dim ond am y tro beth bynnag, dyma gyfle bychan i ninnau ddatgan ein diolchgarwch iddo ef am yr holl waith y mae wedi ei gyflawni ar ein rhan am dros hanner canrif.

**Gyda diolch – Y Blaenoriaid**


Anfonwn ein gweddïau at

• Mae Alison Vaughan Jones wedi gwella yn ddigon da i ddychwelyd adref o'r ysbyty.

• Mae Nerys Vaughan Jones wedi cyrraedd adref hefyd. Daliwch i gofio am y teulu yn eich gweddiau.

• Cymerwyd Mair Powell i Ysbyty Frenhinol Lerpwl wedi codwm yn ei chartref deg diwrnod yn ôl. Bydd yn aros ar Ward 2A am ychydig.

Cynhelir Dydd Gweddi Byd Eang (GDBE) ar ddydd Gwener, Mawrth 5ed .Paratowyd y gwasanaeth gan Chwiorydd Cristnogol Vanuatu a'r thema yw 'Adeiladwch ar Sylfaen Gadarn'. Gofynnwn am eich gweddïau dros ferched Vanuatu sydd mewn sefyllfa lawer gwaeth na ni.



Amlygir tueddiad Vanuatu i seiclonau yn y llun uchod a ddewiswyd i gynrychioli DGBE 2021, dan y teitl "Seiclon Pam II: 13eg o Fawrth, 2015". Mae'n dangos mam yn plygu ac yn gweddïo dros ei phlentyn. Mae'r tonnau'n chwalu drosti ond mae dail palmwydd yn plygu'n amddiffynnol drostynt . Mae sgert y fenyw wedi'i modelu ar y dillad traddodiadol Erromango. Ar y gorwel gallwch weld croesau bach yn cynrychioli'r bywydau a gollwyd yn seiclon Pam yn 2015.

---

Diolch i bawb sydd wedi anfon gair neu ffonio wedi genedigaeth ein merch Efa Rebecca. Mae hi'n tyfu'n gyflym ac yn canu arias am ddau yn y bore !



***John a Sara (Fielding)***


*YSGRIF GOFFA*

# William David Davies (Dai)

**_DAI DAVIES_**

I'w wlad yn geidwad y gôl i Gymry
Yn gymrawd rhagorol
A'n hiaith ar waith oedd yn rôl
Y brawd hynaws ysbrydol.

*John Owen, Rhuthun*



**Yn drist ar 10fed Chwefror bu farw cyn golwr Cymru, William David Davies (sy'n fwy adnabyddus fel Dai), yng nghartref ei deulu yn 72 oed.**

**Cafodd Dai ddiagnosis o ganser pancreatig terfynol ym mis Mehefin 2020 ac roedd wedi derbyn gofal yn Ysbyty Maelor Wrecsam, Ysbyty Brenhinol Lerpwl ac yn ystod ei fisoedd olaf yn Hosbis Nightingale.**

**Roedd Dai ar un adeg yn gôl-geidwad Cymru gyda'r nifer fwyaf o gapiau, gan wneud 52 ymddangosiad i'w wlad dros gyfnod o saith mlynedd.**

**Dechreuodd ei yrfa pel-droed yn Ninas Abertawe, cyn symud ymlaen i Everton, Tranmere Rovers, Dinas Bangor a Wrecsam, lle daeth â'i yrfa i ben yn ei ail dro gyda'r clwb.**

**Yn ystod ei amser gydag Everton daeth yn aelod o'r gynulleidfa ym Methel, Heathfield Road.**

**Yn enedigol o ardal Glanaman yn Sir Gâr, roedd wedi ymgartrefu yn Llangollen, Sir Ddinbych yn fwy diweddar lle bu'n rhedeg clinig iechyd naturiol.**

**Roedd yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Aman ac fe hyfforddodd i weithio fel athro ymarfer corff. Aeth yn ôl i weithio fel athro am gyfnod yn dilyn ei ymddeoliad.**

**Roedd yn Gymro balch ac fe gafodd ei urddo i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol 1978.**

**Mae ein meddyliau gyda Judy (ei wraig), Bethan, Gareth, Rhian, Emma, Sally, Kate a'i 12 o wyrion a gweddill y teulu.**

***David Williams (Karslake)***

---

# COFIO ARWEINYDD CORAU CANU

**_William Matthews Williams, (Gwilym Isallt) 1886-1972_**

Cerddor, cyfeilydd, cyfansoddwr, ac arweinydd corau oedd William Matthews Williams. Ganwyd ef yn Victoria House, Amlwch, 9 Rhagfyr 1885; mab Richard ac Ellen Williams. Magwyd ef ar aelwyd hynod o grefyddol, yr oedd ei dad yn flaenor blaenllaw yng Nghapel Bethania (M.C.), ac yn amlwg yn Henaduriaeth Môn. Dywedir mai Matthews oedd yr un fu'n cymell y diwygiwr Evan Roberts i ddod i Amlwch, ac ychwanegwyd yn ddirfawr at rif yr eglwys yr adeg honno yn 1905.

Addysgwyd ef yn Ysgol y Bwrdd, Amlwch (dan y prifathro John Matthews, cerddor gwych yn ei ddydd); Ysgol Sir Llangefni; a Choleg Brenhinol Cerdd Llundain (dan yr Athro Frederick Corder a llawer o gerddorion pwysicaf y cyfnod hwnnw, ac yn gyd-efrydydd â rhai a ddaeth wedyn yn brif gerddorion Ewrop).

Graddiodd W. Matthews Williams yn F.R.C.O. a chael Cymrodoriaeth yng Ngholeg Brenhinol yr Organyddion. Ei athro cyntaf mewn cerddoriaeth oedd ei ysgolfeistr yn Amlwch. Gallai ganu'r organ Americanaidd cyn cyrraedd ei chwech oed, ac yn wyth oed dechreuodd chwarae'r harmonium yn y Capel Mawr, Amlwch. Yn y cyfnod yma hefyd y dechreuodd dderbyn galwadau i gyfeilio mewn cyngerddau ym Môn ac er mai bachgen ifanc ydoedd, mynnai cerddorion o fri ei gael ef i gyfeilio iddynt.

Ymhyfrydai iddo gael y fraint o gyfeilio i Mary King Sarah a Laura Evans (Williams). Pan oedd tua pedair ar ddeg oed cafwyd organ newydd yn y Capel Mawr, yr organ bîb, nad oedd ei chyffelyb wedi bod yn yr addoldy cyn hynny, a dewisiwyd ef gan yr aelodau i'w chwarae. Aeth at Dr. Rowland Rogers, Bangor i gael gwersi ar yr organ bibau, ac yn fuan daeth yn feistr yr organ. Bu'n organydd yn Llanrwst, Caer a Hoylake, Cilgwri. O eisteddle'r organ yr oedd yn ysbrydoliaeth i ganu cynulleidfaol. Nid y dôn yn unig a ganai, ond yr emyn, a hynny a ddylai fod nod organydd, meddai ambell un. Fel athro llais ac offeryn gellir dweud ar ran cannoedd o'i ddisgyblion am eu dyled fawr iddo. Beth oedd cyfrinach ei ddylanwad arnynt, ynteu ei wybodaeth aruthrol, ynteu ei bersonoliaeth hyfryd? Ef hyfforddodd y tenor enwog o Sir y Fflint, David Lloyd, organydd G. Peleg Williams (Caernarfon) ac aml un o'r cewri cerdd.

Fel cyfansoddwr, yr oedd ganddo'r ddawn i ysgrifennu cerddoriaeth a apeliai yn fawr at y rhai a garai gerddoriaeth, yn enwedig y werin bobl. Mae ei ganeuon yn hawdd eu canu, ac wedi bod yn ddefnyddiol am genedlaethau. Ymysg ei unawdau gellir enwi *"Llanfair bachellaeth"* fel un o'r ffefrynnau. I gorau meibion bu *"Angladd y Marchog"* yn boblogaidd.

Yn 1972 cyhoeddodd Llyfrau'r Methodistiaid ei gasgliad o 65 o donau. Mae ei dôn "*Woodlands*" ar y geiriau *"Braint, Braint"* yn un o'r goreuon. Fel beirniad cerdd a beirniad eisteddfodol, yr oedd yn un o'r meistri, a hynny am tri ugain mlynedd. Ond credir bellach mai ei gyfraniad pennaf oedd fel arweinydd ac hyfforddwr corau. Yn wir, yr oedd yn ymylu ar fod yn athrylith yn y maes hwn. Daeth Côr Meibion Llanrwst yn enwog dan ei arweiniad, ac felly hefyd Cymdeithas Gorawl Caer a Chôr Heddlu Lerpwl. Daeth i'r adwy yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1935, pan lwyddodd i hyfforddi Côr yr Eisteddfod ar gyfer cyngherddau'r ŵyl mewn ychydig wythnosau, Aeth ymlaen i hyfforddi Côr Caernarfon ar gyfer ymweliad Brenin George y Pumed, a'r Frenhines Mary â'r Castell yn 1936. Arweiniodd hefyd Gôr Eisteddfod Genedlaethol Caergybi, 1927, a bu sôn mawr am y perfformiad bythgofiadwy o "Samson" o dan ei arweiniad. Gweithiodd yn galed i sefydlu Gŵyl Gerddorol Môn, a bu'n ei arwain dair gwaith yn olynol. Cofir amdano fel arweinydd Cymanfaoedd Canu am gyfnod maith.

Wedi ymddeol, aeth i fyw i Fae Colwyn a bu'n arwain Cymdeithas Gorawl Bae Colwyn am ddeuddeg mlynedd. Anrhydeddwyd ef gan Lys yr Eisteddfod Genedlaethol drwy ei ethol yn Gymrawd; derbyniodd radd M.A. Prifysgol Cymru, ac urddwyd ef yn aelod o Orsedd y Beirdd o dan yr enw Gwilym Isallt. Bu'n Llywydd Pwyllgor Cerdd y Brifwyl ac yn Llywydd y dydd yn Eisteddfod y Fflint yn 1969. Bu farw 10 Tachwedd 1972, a bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bae Colwyn

# DYLAI PRIF WEINIDOG PRYDAIN DDYSGU CYMRAEG

**Mynegodd yr Athro Emeritws Peter Trudgill y dylai Boris Johnson fynd ati i ddysgu Cymraeg er mwyn dangos i'w Lywodraeth ei fod ef am gadw y Deyrnas Unedig yn un. Dylai ddilyn esiampl y Swisdir lle y disgwylir ar arweinwyr y wlad i siarad o leiaf un neu ddwy o ieithoedd y trigolion. Dyma ddywedodd yr Athro –**

*The professor describes Welsh as "one of the world's biggest languages" and asks "why shouldn't English people learn" it just as the "Germanophone Swiss learn Italian."*

*Professor Trudgill said: "What better way would there be for English supporters of a cohesive United Kingdom, such as the prime minister and his cabinet, to show how strong their desire is to remain in a union with Wales and Scotland than by learning Welsh or Gaelic themselves?*

*"At the very least, the minister of Education could set about encouraging the teaching of – or at least teaching about – the Celtic languages of Britain and their rich literatures, to pupils in all British schools.*

*"Of the non-English UK languages, Scots has the largest number of speakers, with 1.5 million. Next in size comes Welsh, with the latest government figures showing that nearly 900,000 people in Wales can speak Welsh, and nearly a million understand it.*

*"There are also about 110,000 people in England who speak Welsh, mostly in Herefordshire, Shropshire and Liverpool.*

*"If we then add to those numbers the nearly 5,000 Welsh speakers in Patagonia, then there are probably more than a million speakers of Welsh in the world today, making it one of the world's biggest languages – Professor David Crystal has put it in the top 7%.*

*"So why shouldn't English people learn Welsh, just as the Germanophone Swiss learn Italian."*

*He added: "Of course, while Welsh may have a million speakers, German, French and Italian have respectively 80 million, 75 million, and 70 million native speakers worldwide, and geographically these languages are spoken over extensive areas of western Europe.*

*"But for many Swiss people, their motive for learning the other Swiss languages is not by any means entirely utilitarian.*

*"On the contrary, the Swiss statistics show that 84% of Swiss people believe that learning the other national languages is a very important factor for maintaining the cohesion of the Swiss nation.*

*"The Swiss Confederation has survived, in spite of great religious and linguistic diversity, for very many centuries longer than the United Kingdom of Great Britain and Ireland (as it originally was).*


*"Switzerland has four indigenous linguistic communities. About 63% of the population are German speaking, 23% French speaking, 8% Italian speaking, and 1% Romansch speaking.*

*"The federal government has for many decades had a policy of encouraging French speakers to learn German, German speakers to learn French, and so on.*

*"The goal has been that everyone should learn at least one of the other national languages: there are many people in Switzerland who are native speakers of Swiss German but also speak, write and read fluent High German; speak French very well indeed; have brilliant English; and apologise for their very workable Italian."*

## CARNEDDOG A'I OES

***Cynhaliwyd Darlith (Zoom) ar Noson Gŵyl Ddewi gan Gymdeithas Lenyddol Bethel yng nghwmni Dr. Bleddyn Owen Huws o Brifysgol Aberystwyth yn sôn, gyda sleidiau, am 'Carneddog a'i oes'. Llywyddwyd gan ein Gweinidog, Dr. D. Ben Rees.***



***Pnawn da, Ben,***

Diolch yn fawr ichi am lywyddu neithiwr ac rwy'n falch fod popeth wedi mynd yn iawn a bod y ddarlith wedi cael derbyniad da.

Mae croeso ichi gysylltu i holi am ddarlith arall pan fyddwch yn llunio'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gyda chofion,

**Bleddyn**

***Annwyl Dr Rees,***

Dw i wedi golygu'r fideo a chael caniatâd wrth Dr Huws, ac mae'n bosib edrych ar y ddarlith ar ein sianel YouTube nawr. Dyma'r ddolen:

**https://www.youtube.com/channel/UCbRs-jSwAgyWSmDTn9sr7sw**

Roedd hanner cant o gyfrifiaduron ar-lein neithiwr, felly roedd tua 70 o bobl yn gwylio'r digwyddiad.

Cofion gorau,

**Mike F.**

## MERSEYSIDE WELSH HERITAGE SOCIETY

# *APPEAL 2020 AND 2021*

***prepared by Dr. D. B. Rees (Chairman/Author), Rachel Gooding (Treasurer) and Dr. Arthur Thomas (Secretary)***

**LIVERPOOL WELSH: A REMARKABLE HISTORY.**

Gwasg Y Lolfa, Talybont has given us the good news that the volume *Liverpool Welsh: A Remarkable History* will be in the booksellers summer 2021, so we have time to achieve the goal of £7,500 by 1 August, 2021.

We are so grateful for List 11 as we had received by 28 February 2021 the sum of £3,555. Every donation will be gratefully received and acknowledged in the book by inserting your name and a gift will ensure you a copy of a hard back volume. It will be signed and you will be invited to the launching of the book in June 2021.

**List one: £550; List 2: £450; List 3: £200; List 4: £420; List 5: £510; List 6: £185; List 7: £150; List 8: £350; List 9: £325; List 10: £70; List 11: £145**

### LIST ELEVEN (1/2/2021 i 28/2/2021)

1) Kitty Bronwen Jones, Rock Ferry, Birkenhead the sum of ..£25
2) Hywel Wyn Roberts, Caernarfon, Gwynedd the sum of .....£20
3) John and K.E. Norton, Woolton, Liverpool the sum of .......£50
4) D. Glynn Marsden, Formby, Liverpool the sum of ..............£50

**Total / Cyfanswm ..................................£145**

So we have reached the sum of £3,555 as well at the £2,000 from the proceeds of the Welsh Book.

***Please assist as soon as it is possible for with your help we will get to our goal of £7,500. We need to receive the sum of £1,900 to reach our goal by the month of August, it will be achieved. Many thanks.***

***Can you please send your donations to Merseyside Welsh Heritage Society / Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi c/o 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.***

## GWLEDD ZOOM O LERPWL

***(Mawrth i Ebrill 2021)***

**AR Y SUL**

**MAWRTH:**

**Bore Sul, 14 Mawrth am 11 o'r gloch. Oedfa y Parch Robert Parry**

**Bore Sul, 21 Mawrth. Yr un cennad a'r Sul blaenorol ar zoom am 11.**

**Bore Sul, 28 Mawrth. Cloïr y tymor cyntaf gan Dr. Ben Rees mewn oedfa Sul y Blodau. Tyner, Tosturiol.**

**EBRILL:**

**Bore Sul, 4 Ebrill am 11 o'r gloch. Oedfa y Parch Robert Parry**

**Bore Sul, 11 Ebrill am 11 o'r gloch. Oedfa y Parch Robert Parry.**

**Bore Sul, 18 Ebrill am 11 o'r gloch. Oedfa y Parch Ddr. D. Ben Rees.**

**Bore Sul, 25 Ebrill am 11 o'r gloch. Oedfa y Parch Robert Parry.**

### DOSBARTHIADAU TRAFOD

**ar y thema Cristnogaeth a Chrefyddau'r Byd Sesiwn 5. Pnawn Llun 22 Mawrth 2021 (2 i 3 o'r gloch) ar Epistol at y Rhufeiniaid 5 :5; a: 1-27 o dan ofal Dr D. Ben Rees.**

**Croeso i bawb i bob un o'r cyfarfodydd hyn, gwledd i'r glust, i'r galon ac i'r gymuned**

CYMRAEG

*Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484 aerontynycefn@gmail.com*

# Athrawon i blant a ieuenctid Cymry Lerpwl



***Dyma lun ardderchog - o'r cefn, chwith i'r dde:***

***Dr Mallt Care,***
***Mair Roberts,***
***Wena Evans,***
***Mair Thompson***
***Sian Hartley,***
***Dr Ben Rees,***
***ac yn eistedd Beryl Williams***
***ac R. Ifor Griffith.***

***Dyma gynheiliaid ein hetifeddiaeth Gristnogol Gymraeg yn Methel, Lerpwl yn negawd gyntaf ein canrif.***

# TARO E-BOST

*Annwyl Ben,*

Rwyf newydd dderbyn copi Mawrth o'r *Angor* ac wedi ei ddarllen o glawr i glawr, fel arfer. Unwaith eto rhifyn diddorol o ddwylo'r cyfranwyr a'r golygydd.

Gwnaeth yr erthygl ar 'Torri Gwallt' gan Brian Thomas fy atgoffa o fy mhrofiad cynnar yn Lerpwl, o amgylch Penny Lane.

Fy nghof gyntaf o fynd i gael torri fy ngwallt oedd pan aeth fy nhaid â mi at ei farbwr 'Armits' a oedd wedi'i leoli ar gornel Dudley Road a Smithdown Road. Barbwyr dynion hen ffasiwn go iawn, dim apwyntiadau dim ond aros eich tro.

Rwy'n cofio gwylio yn astud wrth i'r barbwr, mewn cot hir wen, baratoi ei eitemau i roi eilliad i'm taid, roedd e yn cael eilliad bob amser wrth ymweld a'r barbwr. Y ddau beth yr oeddwn i'n hoffi eu gwylio oedd llacio'r sebon gyda'r brwsh a tharo'r rasel ar y strap lledr. Yna byddai'r barbwr yn clipio gwallt fy nhaid gyda siswrn a chrib. Yna fy nhro i fyddai hi. Byddai'r barbwr yn gosod hen grât potel gwrw pren ar y gadair cyn fy nghodi i eistedd arni, a byddwn i'n cael torri fy ngwallt, dim steilio. Es i i 'Armits' am flynyddoedd ar ôl hynny.

Pan oeddwn i tua phymtheg oed y lle i fynd am dorri gwallt oedd trinwyr gwallt 'Bioletti' a oedd ar Smithdown Place gyferbyn ag Eglwys Heathfield Road. Hwn oedd y barbwyr a wnaed yn enwog gan y Beatles yn eu cân Penny Lane, ac, fel yn y gân, roedd o yn dangos ffotograffau yn ffenestr y siop, yn cynwys gwahanol arddulliau'r dydd. Rhaid imi gyfaddef nad oeddwn yn bryderus iawn am ffasiwn a pharheais gyda 'Armits', ac roedd yn rhatach.




***Trinwyr gwallt Bioletti, Smithdown Place, gyferbyn ag Eglwys Heathfield Road***



***Cardington***

*Daw, daw'r atgofion ar eu hynt*
*Wrth feddwl am yr amser gynt.*

Yn yr un erthygl mae Brian yn sôn am fynd i Cardington i gwblhau ei wasanaeth cenedlaethol. Mae hyn yn gyd-ddigwyddiad eithaf gan fod Cardington ddim ond deng milltir o'r lle rwy'n byw yn Swydd Bedford ac rwy'n mynd heibio'r hen ganolfan RAF yn weddol aml ar fy ffordd i Bedford.

Daliwch ati gyda'r gwaith da o gyhoeddi, ac edrychaf ymlaen at y rhifyn nesaf.

Cofion,
D*avid (Karslake).*

---

*Harrow,*
*ger Llundain*
*18-2-2021*

*Annwyl Gyfaill,*

Diolch am yr oedfa a'r cwrdd Sul diwethaf. Braint fawr yw dy glywed fel arfer. Rwyf wedi cael amser difyr iawn yn darllen rhifyn mis Mawrth o'r *Angor*, yn enwedig erthygl Brian Thomas ar y dasg o Torri Gwallt. Datcu oedd y barbwr fel y gwyddost yn Llanddewi Brefi a dath llu o atgofion melys iawn yn ôl imi wrth ddarllen am farbwr Penmachno. Es innau fel Brian i wersyll Cardington i ymuno â'r Llu Awyr yn mis Ebrill 1957 a'r peth cyntaf rwy'n ei gofio, yn ei gael oedd copi o'r Beibl fel rhodd. Rwy'n edrych ar y Beibl hwnnw yn awr ac o fewn y cloriau mae'r dyddiad o seithfed o Ebrill 1957 ac ar y clawr insigna y Llu Awyr. Pob hwyl ar y golygu.

Dy ffrind bore oes.
*Gwyn F. Evans.*

zoom

**CWMULUS**

*Nos Wener,*
*26ain Mawrth 2021,*
*7:00y.h.*
***Pegi Talfryn -***
***'Santesau Celtaidd - y fam, y forwyn, a'r ffeminist'***
Llywydd:
Dyfrig Berry

***cwmulus.org/cymraeg***

*Cyflwyno*

# GWYNN AP GWILYM (1950-2016)

**gan Dr. Pat Williams**

Offeiriad, ysgolhaig, cyfieithydd, bardd a nofelydd. Ganed Gwynn ap Gwilym ym Mangor ond cafodd ei fagu ym Machynlleth, lle roedd ei dad yn weinidog yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Ar ôl graddio yng Ngholeg Prifysgol Bangor a chael MA am draethawd *Astudiaeth Gymharol o Farddoniaeth Fodern Gymraeg a Gwyddeleg* (1976), dechreuodd ar ei yrfa fel darlithydd yn Adran Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Corc.

Roedd yn fardd hefyd ac mae wedi cyhoeddi tair cyfrol o farddoniaeth: *Y Winllan, Gwales*, ac *Yr Ymyl Aur,* yn ogystal â golygu ar y cyd ag Alan Llwyd *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*. Yn 1986 enillodd y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun am awdl ar y teitl 'Cwmwl', sy'n disgrifio marwolaeth raddol a chreulon ei dad o glefyd motor niwron a'r effaith emosiynol a gafodd arno yntau. Mae'n gyd-ddigwyddiad trist iddo farw yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ddeng mlynedd ar hugain yn union ar ôl cael ei gadeirio ei hun.

Yn yr wythdegau newidiodd gwrs ei fywyd ac aeth i astudio Diwinyddiaeth yn Rhydychen. Wedi iddo raddio, penodwyd ef yn glerigwr yn yr Eglwys yng Nghymru, gan wasanaethu fel curad ym Mhorthmadog ac wedyn fel rheithor ym Mallwyd. Symudodd i Gaerdydd yn 2002 a gorffen fel canon yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Am gyfnod bu'n ddarlithydd mewn Hebraeg ac Astudiaethau Hen




*Gwynn ap Gwilym*

Destament yn y Coleg Diwinyddol Unedig yn Aberystwyth. Fel mab y mans a ddaeth yn offeiriad nid yw'n syndod ei fod yn hyrwyddo eciwmeniaeth, ond pan ofynnwyd iddo mewn cyfweliad gan y BBC a oedd unrhyw lyfr wedi gwneud argraff arno, atebodd, '*Methodistiaeth Galfinaidd Cymru* (John Roberts, Caerdydd, 1973). Fe'm trodd at yr Eglwys.'

Yn ogystal â chyfansoddi barddoniaeth, cyhoeddodd Gwynn ap Gwilym nifer o lyfrau diwinyddol a dwy nofel. Ni chafodd y nofel gyntaf, *Dydd Oedd a Diwedd Iddo*, ei dyfarnu'n deilwng i ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych (2002) ond er mor anatyniadol yr ymddengys nofel am fywyd esgob ar droad y bymthegfed ganrif, dywedodd y diweddar Glyn Evans, adolygydd *Y Cymro*, mai hon oedd y peth gorau a darllennodd yn y Gymraeg 'ers tro mawr byd.' Mae'r nofel yn ymdrin ag argyfwng personol John Trevnant, Esgob Henffordd (1389-1404) wrth iddo geisio cysoni ei deyrngarwch esgobol i'r wladwriaeth â'i gydymdeimlad â gwrthryfel Owain Glyndŵr.

Nofel hanesyddol am glerigwr yw ei nofel olaf hefyd: *Sgythia* (2018). John Davies, Mallwyd, y gŵr a ddiwygiodd Beibl William Morgan, yw'r prif gymeriad a daw'r teitl o'i ddisgrifiad o Fallwyd a roddir yng ngenau John Davies: 'Sgythia. Y wlad wyllt a oedd i'r Groegiaid diwylliedig gynt yn ymgorfforiad o bob anwaredd ac ysglerder.' Dyna oedd Mallwyd i John Davies – ymhell o bob man, yn ferw o ofergoeledd ac yn amddifad o bob diwylliant. Yn y nofel hon mae Gwynn ap Gwilym wedi llwyddo i roi darlun manwl o hanes y cyfnod yn wleidyddol ac yn ddiwinyddol a hynny mewn iaith goeth ac arddull gaboledig. Mae ehangder ei wybodaeth yn rhyfeddol ac mae'r un mor ddyheuig yn disgrifio problemau argraffu ag ydyw yn sôn am waith gwehydd, disgrifio dawnsfeydd, bwydydd blasus a ffasiynau yr oes ag ydyw yn trafod gramadeg a mydryddiaeth. Nid yw'n syndod fod *Sgythia* wedi cael ei disgrifio fel 'un o'r nofelau hanesyddol mwyaf meistrolgar yn yr iaith Gymraeg.'

Mae Gwynn ap Gwilym yn olynydd teilwng i John Davies, Mallwyd - defnyddiodd ei ysgolheictod a'i ddawn fel llenor i gyfieithu holl litwrgïau'r Eglwys yng Nghymru, ond dyfarnwyd mai ei gyfraniad mwyaf ar gyfer pob enwad yw ei gyfieithiad mydryddol o'r Salmau. Mae'n chwith meddwl bod yr awdur wedi marw yn 66 blwydd oed cyn gweld ei waith olaf mewn print.




*Un o'r nofelau hanesyddol mwyaf meistrolgar yn yr iaith Gymraeg*

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Mai 2021** erbyn bore Iau, 1 Ebrill 2021 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Rhifyn Mehefin 2021** – erbyn bore Sadwrn, 1 Mai, 2021 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd y diwrnod hwnnw.
- **Rhifyn Gorffennaf 2021 –** erbyn bore Mawrth, 1 Mehefin, 2021, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).

# NODION NATUR

## o Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn
## gan Aeron Jones

Rwyf yn siwr fod pawb yn cytuno bod y flwyddyn 2020 wedi bod yn un anodd iawn – gan obeithio y bydd misoedd nesaf 2021 yn llawer gwell.

Yn gyntaf rhaid i mi esbonio lle rydym yn byw. Bwthyn o'r enw Ty'n y Cefn (un o dai unnos ardal y Garneddwen) rhwng Llanuwchllyn a Rhydymain. Mae gennym saith acer o dir gydag acer a hanner o ardd a choedlan. Tir o ansawdd gwael, brwynog, ond lle delfrydol i gerdded ac i astudio byd natur a chlywed yr adar yn canu. Yma yn Nhy'n y Cefn rydym yng nghanol gwlad hyfryd gydag golygfeydd godidog. O'r ystafell wydr rwyf yn gweld y Dduallt (tarddle yr afon Ddyfrdwy), Moel Caws, Creigiau Llwyngwern a Bryniau Draenen. O'r gegin rwyf yn gweld copa'r Arenig – ond nid wyf yn gallu gweld Yr Aran.

Symudais i Ty'n y Cefn yn y flwyddyn 2012. Roedd gan Diane fy ngwraig ddiddordeb mewn adar, coed, planhigion a garddio. Felly hawdd iawn oedd setlo i lawr ac ymddiddori mewn byd natur, garddio ac edrych ar ôl y goedlan. Yn 2009 fe blannodd Diane a'i diweddar ŵr Trevor bron i 200 o goed cynhenid yn y cae wrth ochr y tŷ – erbyn hyn maent wedi aeddfedu ac rwyf yn edrych ar eu hôl gan dorri rhai canghennau sydd yn croesi neu yn rhy isel. Rwyf wedi creu llwybrau trwy y goedlan sydd yn creu diddordeb. Rhai o'r coed a blannwyd yw Y Fedwen Arian, Derwen, Ffawydden, Helyg, Collen, Cerddinen Wen (*white beam*), Gwernen ddu a Gwernen Eidalaidd, Masarnen, Draenen Ddu a Draenen Wen, Castanwydden, Celyn, Tresi Aur, Piswydden (*Spindle*), Pinwydden yr Alban.

Rydym ein dau, oherwydd ein diddordeb mewn plannu coed yn aelodau o Coed Cymru ac yn derbyn pleser o dderbyn y cylchgrawn ganddynt. Fel anrheg Nadolig 2019 derbyniais hanner dwsin o goed – ac felly daeth y caib a'r rhaw allan yn gynnar yn Ionawr a cychwyn coedlan arall yn y cae gyferbyn a'r bwthyn. Erbyn hyn rwyf wedi ychwanegu tua 15 o goed eraill. Mae Diane yn hoffi meithrin coed bach, cael hyd i hadau sydd wedi egnio ac wedyn eu hail botio. Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Y Bala yn 2009 roedd stondin gan Coed Cadw ac roeddynt yn rhannu coed bychan iawn wedi eu rhoi mewn papur newydd tamp. Cafwyd 3 coeden fach Bedw Arian a rheiny oedd y coed cyntaf i'w plannu yn y goedlan. Erbyn hyn maent tua ugain troedfedd a mwy o uchder. Beth am roi coeden yn anrheg i berthynas neu ffrind?



*Y Dryw Eurben*

Y mae'r goedlan yn le i enaid gael llonydd gyda ambell i fainc wedi ei leoli i fanteisio ar y golygfeydd. Erbyn hyn rydym wedi rhoi bocsus adar ar rai o'r coed aeddfed. Gwnewch yn siwr bod y bocsus adar yn wynebu gogledd-ddwyrain. Mae y gwynt yn yr ardal yma yn debygol o ddod o gyfeiriad Rhydymain. Gwnewch yn siwr bod y bocsus tua 10 troedfedd i fyny a bod y fynedfa i'r bocs yn glir o ddail a changhennau er mwyn iddynt gael llwybr clir i'r nyth. Mae'n rhyfeddod sut mae'r adar yn cael hyd i'r bocsus, ac yn nythu ynddynt. Gwnewch yn siwr eich bod yn glanhau y bocsus yn yr hydref gan bydd yr adar yn hoffi cael lle i gysgodi. Peidiwch a rhoddi deunydd yn y bocs i gynorthwyo yr adar i wneud eu cartref. Mae'n wastraff amser gan y byddant yn taflu yr hyn rydych wedi ei roddi i mewn a rhoi deunydd eu hunain i wneud cartref cysurus. Syniad yw rhoi ychydig o wlân mewn pelen wrth ymyl ac maent yn siwr o'i ddefnyddio. Mae'r goedlan yma yn Nhy'n y Cefn yn fwrlwn o adar – a dros y blynyddoedd rydym wedi cyfrif dros hanner cant o wahanol rywogaethau – ond stori arall yw honno!!

### Traddodiadau coed

**Y Pinwydden Albanaidd** – Plannwyd pinwydd yr Alban o amgylch ffermydd fel toriadau gwynt, ac roedd clystyrau o binwydd yn tyfu ar hyd hen lwybrau yn helpu teithwyr i ddarganfod ble roeddent yn mynd mewn tywydd garw. Hefyd clywais os oes Pinwydden Albanaidd wrth fynedfa fferm - mae yn arwydd o groeso. Mae gennym tua 4 o'r coed yma. Mae pinwydd yr Alban yn *monoecious*, sy'n golygu bod blodau gwrywaidd a benywaidd yn tyfu ar yr un goeden. Mae blodau gwrywaidd yn cynnwys clystyrau o antheiniau melyn ar waelod egin. Mae blodau benywaidd yn fach, coch-borffor, ac yn tyfu wrth flaenau egin newydd. Mae'r ffrwyth (moch coed) yn arbennig o dda i'r aderyn fel y Gylfingroes (Crossbill). Rwyf wedi gweld pâr o'r adar yma ym Mai 2019 ac anfonais air i Norman Closs Parry a'r ateb a gefais oedd englyn

*Syrpreis - cefnder i'r 'breision'* yn Nhy'n y Cefn*
*Llanuwchllyn; cadd Aeron*
*Gyflin groes, roes i'r awr hon*
*hudlath oedd fwy na bodlon.*

* breision - buntings

Yn ogystal rwyf wedi gweld Dryw Eurben (*Goldcrest*) ar y coed yma - ein aderyn lleiaf.

I orffen y llith yma – dyma ychydig o frawddegau i chwi feddwl amdano –

***Mae coed yn codi ein hysbryd ar ddiwedd y gaeaf gyda'u blodau a'u dail gwyrdd llachar.***

***Maen nhw'n gwneud golygfa'n fwy diddorol. Maent yn darparu'r llwyfan, lle mae côr o adar yn canu eu halawon amrywiol. Maent yn rhoi cysgod fel ambarel i ni eistedd oddi tanynt. Maent yn trosi nwyon drwg i awyr sydd yn iach i ni arogli. Maent yn amsugno sŵn, yn meddalu gwerinder y gwyntoedd. Maent yn darparu bwyd i lawer o rywogaethau – a bodau dynol hefyd. Maent yn ffynhonnell i gael coed i'n gwresogi. Maent helpu i wella ansawdd pridd. Maent yn glyfar – yn gwybod pryd i ddeffro, beth i'w wneud pan fyddant yn effro a hefyd yn gwybod pryd i syrthio yn ôl i gysgu. Mae coed yn gweithio'n galed ac maen nhw'n rhoi llawer mwy i ni nag y mae'r rhan fwyaf ohonom ni'n ei wybod.***

Tan tro nesaf – gwyliwch y coed a'r adar.

O.N. Yn 2020 roeddym yn disgwyl ymweliad gan dri cymdeithas lleol i weld yr ardd, ond yn anffodus ni ddigwyddodd hynny oherwydd y Cofid. Penderfynodd Diane a finnau gyfrannu arian a fuasem wedi ei gasglu i fynd tuag at Tenovus (Ymchwil Cancr).



*Y Gylfingroes*

# DYMUNIAD

Ym mynwent Drumcliffe – Sligo
mae’n gorwedd, bardd Nobel,
yr ail-dro rhoddwyd iddo
ei fedd – i’r byd ymhel.

Fe wyddai llu o’r ’Werddon
cysgod Ben Brilben fu
deisyfiad dwfn ei galon
pan ddoi yr alwad fry!


Yma, yn oer glinegol
tair llinell – eglurhâd –
gorffennol â’r dyfodol
a lle’i ysbrydol stâd?

Etyb y Llên Awenydd-
“Wrth fyw, wrth farw”…pos…
â threm fel gwynt rhewogydd…
“Farchog…ymlaen…dos!

*Norman Closs*
*Carmel, Treffynnon*.

Yn ysgrifenedig ar feddfaen W.B.Yates

**Cast a cold eye**
**On life, on death,**
**Horseman, pass by.**




# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD


**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o’r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# MAES AWYR JOHN LENNON



***Mae un o'r canolfannau prysuraf byd awyrennau Gogledd Lloegr yn Lerpwl yn gwbl wag. Dyma luniau i brofi hynny a dynnwyd gan Andy Teebay, a diolchwn iddo am gael ei defnyddio yn <u>Yr Angor.</u> Dyma rywbeth i gofio mewn blynyddoedd i ddod. Dim copa byw yno ar Ddydd Iau 18 Chwefror 2021, heblaw y ffotograffydd.***

